

Lybius dubius

barbed barfog

Adar y Byd. Cymdeithas Edward Llwyd a Chymdeithas Ted Breeze-Jones 2015




Barbedau barfog, Gambia, 24.3.2016

Enwir yr adar yma ar ôl y barf amlwg o amgylch y pig - aderyn gweddol gyffredin yn y Gambia, hoff o fwyta ffigys. Tywydd yn andros o boeth rhwng 36 a 30°C mewn cysgod [canol Mawrth 2016]. Gwres normal [i Gambia] ond wythnos yn gynt roedd y tymheredd yn 40C, llawer uwch na'r disgwyl, roeddynt yn dweud bod y tymor gwlyb yn mynd yn hwyrach bod blwyddyn. (Gweler hefyd y dudalen gefn)

Alun Williams

Dirgelion nol heli môr Niwbwrch - a gwymon codog!

Beth wnewch chi o'r ddau-gofnod-yn-un yma gan Thomas Jones, Cwningaer, Niwbwrch ar 27 Mehefin 1871?



“Nol heli mor...” yn gyntaf:

Cymryd mai halen mae TJ yn ei olygu wrth heli? Amryw o resymau pam oedd o eisiau halen wrth gwrs (halltu mochyn at y gaeaf efallai, ac mae llawer o enwau fel Cae Halen a Tyddyn Halen o gwmpas Gwynedd o leiaf). Dyma gyfeiriadau hefyd mewn dyddiaduron at “hau halen” fel a ganlyn:

Aberdaron 28 Mai 1884: sych Gorphen torri tywyrch cwt 5 Hau halen yn Cae'r Afon

Dyddiadur William Jones, Moelfre, Aberdaron

Llansilyn, Sir Dinbych 23 Ebrill 1925: Gorffen hau halen hau Basic Slag yn top Hugh yn llyfnu palu yr ardd mynd i edrych am foch i Park.

Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilyn, Sir Dinbych.

Ac meddai John Lloyd Jones Pelcomb, Hwllffordd pan fuom yn trafod hyn gyntaf ym **Mwletin 33 (tud. 3)**

Un ateb posibl yw fod hau halen yn wrtaith cyffredin i gnydau megis mangls a betys siwgr un amser. O ganlyniad i hyn es i ail-darlennu llyfr o fy nyddiau coleg yn y pumdegau sef *Agriculture - The Science And Practice of British Farming* gan Watson a More. Mae'r awduron yn awgrymu - *Mangolds respond to applications of up to 5cwts per acre ac hefyd-it is known that salt can be utilised by the crop.* Mae cofnod William Jones mwy na thebyg yn cyfeirio at amser hau'r cnwd.


Doedd y tywydd hyd ddiwedd Mehefin 1871 ddim wedi bod yn arbennig o gynnes (i gyddwyso dŵr môr i halen)... term TJ am “froc môr” efallai?

.... a gwmon codog



Dim dirgelwch am hel gwymon fel gwrtait wrth gwrs, ond "gwmon codog"?! (= ***Fucus vesiculosus***: coden yw *vesicle*). Pam ar wyneb y ddaear roedd tyddynwr cyffredin eisiau gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o wymon. Mwy o ymateb yn y rhifyn nesa
Chwith: gwymon codog ar draeth Llanbedrog 28 Mawrth 2016

Batris Cwningar, Niwbwrch



Beth oedd tyddynwr cyffredin o Niwbwrch yn 1871 yn gwybod am fatris - heb son am eu gwneud nhw a'u trwsio nhw? Mae dyddiadur Thomas Jones hefyd yn son am “weirs” bob yn ail ddydd bron, am gyfnod. Dyma farn yr arbenigwr Hywel Madog:

Nid oedd nemor ddim defnydd o drydan fel yr ydym ni yn ei adnabod yn 1871, dechrau symud oedd pethau er bod arc lamps, generaduron a moduron trydan ymarferol yn dechrau cael eu cynhyrchu a'u defnyddio. Buasai clychau trydan ar gael,

Fodd bynnag, yr oedd technoleg telegraph yn dechnoleg aeddfed yn y cyfnod yma a buasai gwifrau, batris ayb yn weddol gyffredin. Yr oedd y telegraph yn rhan annatod o redeg rheilffyrdd ac yn bendant buasai system delegeff yn gysylltiedig â'r rheilffyrdd ar draws ynys Môn fel pobman arall. Cenedlaetholwyd y system delegeff yn 1869 gyda'r bwriad o ehangu'r sustem a sefydlu gwasanaeth telegram cenedlaethol. Yn 1871 yr oedd y gwaith yma yn symud ymlaen ond yn annhebyg o fod wedi cyrraedd Ynys Môn. Mae'n werth nodi, yn enwedig pan oeddwn i yn ifanc, yr oedd yn arferol cyfeirio at bolyn trydan, neu ffon, fel polion telegraph. Tystiolaeth fod y dechnoleg yn gyfarwydd i'n teidiau. Cofiw'n hefyd am Gwm Brwynog- telegraph valley.

Yn y cyfnod, 1850 i 1870, yr oedd mwyafrif o brifddinasoedd y byd wedi eu cysylltu â gwifrau telegraph gan gynnwys UDA (1865), De America (1874), Aifft (1870), Singapore (1870), India (1864), Awstralia (1871) ayb. (Ewch yma am lun y **cwt teligraff** ddoe a heddiw)

Mae'n werth nodi fod cebl yn cael ei osod o **Borth Treacastell (Cable Bay)** (Aberffraw/ Rhosneigr) i Howth yn yr Iwerddon yn 1871. Gan nodi agosatrwydd Aberffro a Niwbwrch y mae'n hollol bosib fod peth 'gwaddodion' o'r gwaith yma wedi cyrraedd Niwbwrch. Hefyd, yn ddiamau fe fuasai nifer o bobl yn Ynys Môn yn gweithio ar systemau telegraph ac felly yn gyfarwydd â'r dechnoleg.

Heddiw yr ydym yn cysylltu'r termau weiers a batris gydag offer sydd yn ymwneud a thrydan; mae'n annhebyg y buasai'r un meddylfryd yn bodoli yn 1870. Rhaid cofio fod gwifrau, ar gyfer ffensys a rhaffau, yn gyffredin ac mai ystyr batri yw gwrthrychau ochor yn ochor, fel mewn ieir batri; yn wreiddiol nifer o fagnelau cyfochrog (gun battery). Os defnyddiwyd y geiriau yn yr ystyr fodern, buaswn yn damcanu mai gyrru negeseuon fuasai'r defnydd mwyaf tebygol. **Hywel Madog Jones**

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur
gan Gymdeithas Edward Llwyd
(Rhif Elusen: 1126027).**

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk

Cymylau pyrsiog



Cymylau *mammatus* dros Sir Fôn tua 5.15 ddoe [30 Mawrth 2016], o'r A55 yn edrych i'r gorllewin dros Llangefni. Roedd rhain yn crogi o dan andros o gwmwl storm shâp engan mawr oedd newydd basio, gan biso am ein pennau – cawod drom iawn o law/eirlaw ac awyr ddu ddu. Haul braf a gorchudd gwyn dros gopaon bryniau Nantlle a draw i'r dwyrain wedi iddi fynd. [Llun arall yn yr Oriol].

Twm Elias

Oes gennych gynnig am enw i rhain?

Y saith chwaer ar sosbenni serog

Gyda llaw, yn hoffi'r eitem am y **7 chwaer/Subaru yn Llên Natur**. Pan o'n i'n hogyn bach yn mynd efo fy chwaer fawr i'r Band o' Hôp neu i ryw gyngerdd yng Nghlynnog ganol y 1950au ac yn dwad adra ar noson serog yn y gaea mi fyddem yn chwilio am hon – y sosban bach fel oedden ni'n ei galw a chwilio hefyd am yr Arth Fawr, neu'r sosban fawr. Bloeddio canu i'r nefoedd wedyn : "Sosban bach yn berwi ar y tân, Sosban fawr yn berwi ar y llawr", a chael andros o hwyl.

Twm Elias

{Ymddiheurwn i Keith O'Brien am fethu a chydabod ei stori ar dudalen 8 y Bwletin diwethaf Gol.}

Bwlbwl Tseina



Bird in tree, near our friends' apartment. Off to Shanghai today, Beijing on Thurs. Hard to stop and take photos of birds etc as when we stop we get mobbed by people wanting photos of the children...!

Kara Stanford

Edrych fel **Bwlbwl Tseina**.

Rhys Jones

Mae teulu'r bwlbwliaid yn niferus iawn- 120 o fathau ar draws y byd. Dyma rai yn y **Geiriadur Termau**

Storm fawr 1954



Llun o Gapel Cana, Rhostrehwfa wedi colli rhan o'i do yn y stormydd mawr ar Dachwedd 30ain, 1954. Yn ystod y cyfnod yma bu aelodau Cana yn cydaddoli yn Eglwys Pisgah (Bedyddwyr) hyd nes yr atgyweiriwyd y to. **Hanes o bapur bro Y Glorian Ebrill 2016**

Roedd hon yn ddipyn o storm - ewch i'r **Tywyddiadur i weld**. Dyma rai cofnodion 30 Tachwedd 1954:

Padog: Hyrddwynt mawr. Dwy goeden i lawr yn y nyrs, a hanner y goeden crabage yn cae llouau. Corwynt mawr yn taflu coed i lawr, chwalfa fawr ym mhob man **DO Jones**

Henblas, Llangristiolus: *a full gale from the south has raged without a break. Trees are down, traffic has been disorganised, damage has been wrought to the school roof* **TG Walker**

Aberstwyth: *During the gale of 29th-30th November 1954, the purple sandpipers which normally feed on the seaweed-covered rocks off Aberystwyth promenade were forced to forage on the top of the stone pier south of the harbour, where they have never previously been recorded.* **A. O. Chater (Nature in Wales)**

Crwbach cynn melyn

12 gwyfyn a dim byd arall yn y trap gwyfynod 22-23/3/2016. Crynwyr bach (6), Crynwyr cyffredin (2),



Crynwyr gothig (1), Crynwyr amrywiol (Clouded drab)(1), un 'dwi ddim wedi nabod hyd yma, a hwn (chwith) sef *Tant cynn melyn* (*Achylya flavicornis*),

'Cynn melyn' oherwydd lliw y teimlyddion - a 'dwi'n cicio'n hun na faswn i wedi cael llun o'r rheiny. Ma' nhw yn eitha cyffredin yn ôl pob son, er nad ydw i yn cofio dal rhai yn y Penrhyn 'ma o'r blaen, a mi gymerodd rai dyddia a chryn drafod gyda'r doethion cyn ei adnabod o yn iawn. Mi fydd rhaid i mi durio drwy'r cofnodion ryw bnawn glawog! Dyma ddyddiadau DB i'r crwbach cynn melyn:


20 Mawrth 2005 Waunfawr, 21 Ebrill 2008 New Forest, 20 Mawrth 2006 Aber, 18 Mawrth 2004 dyffryn Abergwyngregyn

Hirlwm y dylluan



hirlwm [hir+llwm] meddai Geiriadur Prifysgol Cymru yw'r "adeg o'r flwyddyn (diwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn) pan fo prinder ymborth i ddyn ac anifail, ysbaid hir o brinder (moddion, cynhaliaeth, &c.), o wasgfa, neu o fyw'n fain, cythlwg, ... Ar lafar yn y Gogledd a'r De, e.e. "Irlwm dwetha odd 'i pin ddedhon nw ma' (Nantgarw), B xvi. 99

, 'hirlwm y gwanwyn, i.e. March and April', WVBD 173, 'hirlwm y gaeaf'. Cofnodir hirlwm fel gair lledfyw yn Saesneg sir Faesyfed, gw. 1871 (1938) Kilvert's Diary", *March was reckoned a very severe trying month ... Old-fashioned folks called March 'heir-loun' or some such name.*



Dyma uchod graff yn dangos amser y flwyddyn (cylch) a amser y dydd (radiws) mewn perthynas a nos (cylch tywyll) a dydd (parth gwyn). Ai adlewyrchu llymder y tymor y mae'r clwstwr o hela liw dydd rhwn Ionawr a Mawrth?

Mwy am llyg y dŵr (Bwletin 98)

Trwy ddadansoddi degau o samplau o bellenni





Plant Ysgol y Graig, Llangefni yn dadansoddi pellenni tyllan wen, Mai 1991. Duncan Brown

tylluannod gyda phlant ysgol yn yr 1980-90au cafwyd beth wmbredd o wybodaeth ddiddorol. Dysgwyd y plant i wahaniaethu ac i adnabod yr holl brae yn y pellenni a gwirwyd eu cofnodion yn ystod y wers. Gwelwn ym **Mwletin 89** (tud. 2) sut i wahaniaethu'r llyg dŵr. Mae presenoldeb (cylchoedd du) llygon dŵr yn y samplau yn dangos dosbarthiad llawr gwlad ac absenoldeb (cylchedd gwyn) i raddau helaeth yn yr ucheldir. Duncan Brown



pellenni tylluan wen (gydag olion giach), 1988.



Ffair Wagedd Y Borth - mwy

Waunfawr, 27 Ebrill 2014, DB



Dwy'i ddim yn siwr pa siani flewog oedd hon [tudalen 3] – efallai woolly bear – the hairy caterpillars of the Arctiidae family of moths. Arthur Ransome unwaith eto [gweler hanes y slèd hwylio yn yr un rhifyn

tudalen 8] yn The Picts and the Martyrs, pen.. xxiv: "Fox-moth caterpillar" said Dick joyfully. "One of they Woolly Bears" said the old man. "It's not really a Woolly Bear," said Dick seriously. "The Woolly Bear's a Tiger Moth." Ond gwnes i ddim clywed am y gêm hon mewn ffair.

Philip Clark

Beth am gofnodion eraill am chwaraeon plant yn ymwneud ag anifeiliaid?

Rhaib y llinosiad gwyrdd - MWY!



Yn union fel y cofnododd Gilbert White yn y rhifyn diwethaf (98, tudalen 8) dair canrif yn ôl bu'r llinos werdd yn gwneud yr un drygioni ers wythnosau bellach yng Ngwelfor.

Checio'r niwed bore ma (18 Mawrth 2016) i'r briallu Mair yn fwy gofalus; mae'n ymddangos mai tynnu'r corola o betalau allan yn gyfan y mae nhw ond wedyn torri'r calyx o sepalau i gael y nectari maethlon
Duncan Brown

Toeddwn i heb weld Llinos Werdd yn yr ardd nag yn agos i lle roeddwn yn rhoi bwyd i'r adar tan wsnos dwytha. Mi ddaeth y llinos i fwydo ar hadau blodyn yr haul oeddwn wedi ei roi yn haenen ynghanol y cnau - a wedi hynny bu difrod i'r briallu melyn. Mae gen i friallu o sawl lliw yn yr ardd ond y rhai melyn oedd yn cael eu difrodi yn unig. Welais i mo'r llinos werdd yn gwneud ond rhyfedd ei fod wedi digwydd wedi iddynt ddod i fwydo ar yr hadau blodyn yr haul.
Olwen Evans

Diolch i Jacqueline Wilmington am dynnu sylw arall - mae neb llai na Charles Darwin yn trafod yr union beth mewn llythyr yn 1874 ond gan goch y berllen. Mae'n disgrifio greddf gynhenid yr adar i fynd am y rhannau mwyaf maethlon... darllenwch.

Griff cyfnar eleni

Eleni [yn ardal Hwlfordd] fe welsom y griff yn y llyn ar y 17 Ionawr, y cynharaf i ni sylwi. Nid wyf yn siwr a oes rhywun arall wedi gweld griff mor gynnar eleni. Gwynedd Talfryn James




Our first frogspawn in the village [Llanddona] was 30th Jan this year.
Jean Matthews

Griff, (uchod) Cwm Dolgain Trawsfynydd 5 Mawrth 2016 Keith O'Brien

Yr Hydd Gwyn.... erbyn hyn

Yn Rhifyn 92 (tudalen olaf) gofynwyd i bobl ail dynnu'r hen lun yma o'r Hydd Gwyn yng Nghwm Rheidol



Dyma Jacqueline Wilmington yn camu i'r adwy.



"Dyma lun a dynnais ym mis Hydref 15"

Jacqueline Wilmington


Ewch yma i weld lluniau eraill "radeg honno a rwan" yn ne Lloegr

Wrth eu ffroenau.... MWY



Yn rhifyn 97 (tud. 3) dangoswyd ffroenau'r morgi brych - y mwyaf o'r ddau forgi cyffredin. Dyma rwan ffroenau'r lleiaf, i ddangos gwahaniaeth allweddol.

Pawb a'i fys - pawb a'i fadfall



Graffito ar wal toiled y dynion yn manteisio ar graith pliciad yn y plastar. Yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor Madfall dywod meddai un 'dyfrwr' natur. Na, medd un arall, madfall muriau Ewropeaidd ydi hwn!

Llysenwau anifeilaidd Gaeliaid yr Alban

Tha rann traidiseanta à Latharna ann an Earra-Ghàidheal a' toirt cunntas dhuinn air na frith-ainmean a bhathar a' cur air na daoine ann an diofar sgìrean....

Mae yna draddodiad yn iaith Gaeleg pobl ardal Latharna (Lorne), swydd Argyll, sydd yn cyfeirio at arferiad o llysenwi pobl o ardaloedd arbennig yr Alban ar ôl anifeiliaid (meddylwch am Yr Elyrch ac am dîm pel droed Abertawe). Mae pobl Latharna er enghraifft yn galw eu hunain yn lyffantod. Ni wyddys a yw rhain yn dyddio yn ôl i arferion hynafol, ond dyma Ruairidh Maclain yn ymhelaethu yn y fersiwn Saesneg o'i erthygl diweddar yn "The Nature of Scotland" (rhifyn 23):

Whether or not animal appellations are a relic of an ancient totemic practice is not clear, although the notion is supported by the fact that the natives of Kintyre – the ancient home of the Epidii or horse-tribe – were called eich 'horses' in Gaelic. The system was certainly widespread, and a few nicknames are still recognized among the Gaels today. In some instances, they appear to link the local population to an animal that is common in the area or which occurs in a local place-name. And the system could operate at more than one level; while the people of Lorne had various names according to locality, they were collectively labelled losgannan 'frogs'

Mae Ruaraidh yn gofyn a oes enghreifftiau tebyg yng Nghymru? Wel ddarllenwyr Llên Natur.....?.

Dyma Twm Elias (yn ei Saesneg gorau!):
There is a rich fount and, as with you, many allusions to things common in the village/area concerned. They're frequently derogatory, having been devised by people from neighbouring, rival areas. Many have a slight poetic ring to them, witness the consonant repetition, e.g.:

Lloia Llŷn – Llŷn calves, a very good cattle area. A llo (calf) though can be an expression for somebody who is thick / stupid / unresponsive.

Moch Môn – Anglesey pigs, the island reared many pigs. Pigs are – pigs!


Cŵn Caer – Chester dogs. The common saying 'codi cyn cŵn Caer' (rise before dawn) refers to the time when you had to go at night, before the dogs awoke, to steal things from that English town!

Brain Bryn croes – Bryn croes crows – a big rookery there

Cregyn Cricieth – Cricieth seashells, on the coast

Parhad rhifyn nesaf

Daear Gath -



Lleoliad ble y lladdwyd cath wylt olaf LLŷn yn 1810.

(diolch i Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac Emlyn Jones, Y Rhiw)

Ifor Williams

CLUDO HELI I'R MÔR gan Penfro

Mal ymholi am halen - i fôr hallt,
Ofer, hurt, diangen
Yw rhoi un ganwyll frwynen
Yn wawl yn nydd haul y nen. .

Aderyn yr iâ

A firebird on ice - South West Moscow, a forest park 1984.

*She wobbled on thickened legs
stiffly on an iced over path
between frozen trees,
hanging whitened chandelier droplets,
magically lit by white, white snow,
this worn out babushka
in her plain straight coat,
shawl and no nonsense boots.*

*I felt a voyeur, observing detail,
as she paused before me,
at the edge of a lake of glass,
taking off her boots,
wheezing, panting,
first one, then the other,
putting on elongated skates,
sharp edges, metallic,
she grazed the lake,
scratching its glass.*

*I'd slowed, feeling old,
on the path, breathing
in her supple dancing darts
across the ice,
no more a wheezing babushka
on swollen legs,
this graceful girl with wings.*

Diwedd y flwyddyn roedd hi, rhyw dro ym mis Rhagfyr 1984.. Mae'r uchod yn stori wir. Mewn llen gwerin Slafig mae'r Aderyn Tan yn aderyn hudol sy'n tywynnu ac yn dod o wlad bell, bell I ffwrdd ac yn fendith ynogystal a melltith i'w daliwr. Ysbrydolodd stori'r Aderyn Tan nifer o weithfeydd llenyddol gan gynnwys "Y Ceffyl Bach Cefngwrwm" gan Pyotr Yershov. Y cynhyrchiad mwyaf adnabyddus o'r Aderyn Tan oedd y cynhyrchiad gan Sergei Diaghilev o'r Bale Russe a wnaeth comisiynu'r cyfansoddwr Igor Stravinsky I greu y bale poblogaidd a adnabyddwyd fel "The Firebird" (Yr Aderyn Tan).

Wendy Jones

Eira mis Ebrill



Nebo, Dyffryn Nantlle bora
'ma tua 10.00yb 9 Ebrill
2016 yn gwireddu 3 hen
ddyweddiad am eira (plu go
fras oedden nhw):

Eira mân, eira mwy,
Eira bras ni arhosa.

Ymhen ryw awran roedd o
wedi dadmer i gyd:

Eira mis Ebrill ni saif fwy na
w^y ar ben ebill

Roeddem wedi cael glaw a gwynt dros nos, oerni a chawod o eira yn y bora ac erbyn amser cinio roedd hi'n heulog a phoeth ac wedi dadmer i'r copaon (heblaw'r Wyddfa) erbyn canol y p'nawn. Hyn yn gwireddu'r trydydd dyweddiad:

Ceir tywydd y pedwar tymor mewn diwrnod o Ebrill

Twm Elias

Dal Pysgod!

CORED RHOS FYNACH



Cored Rhos Fynach

Pan fo'r llanw'n isel gallwch weld olion y sylfeini sy'n dyddio o'r Canol Oesoedd, un o blith llawer o'i bath a arferai fod yn niferus ar hyd arfordir Cymru. Arferai fod dwy gored bysgota yn Llandrillo yn Rhos. Roeddnt ar ffurf magwrydd mawr siâp V wedi ei wneud o wiail. Pan fyddai'r llanw'n uchel byddai'r pysgod yn nofio i mewn iddynt, a chael eu dal mewn pwll pan fyddai'r llanw'n mynd allan. Roedd coredau o'r fath mor effeithiol nes iddynt beryglu'r stoc bysgod erbyn Oes Fictoria, yn enwedig yr eog. Felly ym 1861 pasiodd y Senedd ddeddf yn gorchymyn eu dinistrio. O ganlyniad cafodd y gored arall yn Llandrillo yn Rhos ei dileu.

Yn 1186 sefydlodd Llywelyn Fawr Abaty Aberconwy a rhoddwyd lawer o dir ac eiddo iddo gan gynnwys y gored hon. Fodd bynnag, 'roedd eithriad i'r gyfraith newydd pe gallai'r perchennog brofi bod ei gored yn bod cyn y Magna Carta (h.y. 1215 AD). Medrai perchennog cored Rhos Fynach brofi ei gwreiddiau canoloesol gan fodloni'r comisiynwyr, ac o'r herwydd ni chafodd ei dinistrio - sy'n brawf pellach o hynafiaeth pentref Llandrillo yn Rhos. Roedd y gored yn hynod effeithiol a gellid dal llwythi o bysgod yno.

Er enghraifft, ym 1850 dalwyd 35,000 o benwaig mewn noson!



Helth Meeryll

Daliwyd siarc wyth troedfedd yn y gored ym 1865, a'i arddangos ym marchnad Llandudno. Dro arall (ym 1907) daliwyd 10 tunnell o fecryll (deg mil o bysgod!) ar un llanw. Bu perchennog diwethaf y gored, John Parry Evans, yn hyfforddi daeargwn i godi eogiaid o'r gored. Gymaint yr edmygid y ci cyntaf, Jac y Teriar, nes iddo ennill coler arian a mynd yn atyniad twistaidd poblogaidd. Byddai Jac yn cydio yn yr eog wrth ei adain gefnol, a thrwy hynny yn osgoi ei niweidio ar gyfer y farchnad. Yn anffodus, bu farw ym 1873 ar ôl cael ei anafu'n ddifrifol gan siarc arall a ddaliwyd yn y gored! Aeth y gored yn anarferedig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac fe gollwyd ei stanciau am eu bod yn beryglus i gychod.

CORED CAERHUN



Yng Nghaerhun, ar Afon Conwy, mae yna gored y dywedir ei bod yn dyddio'n ôl i amser y Rhufeiniaid. Ynddi mae mur garw o gerrig wedi ei hadeiladu yng nghanol yr afon, ac sy'n gan medr o hyd a rhyw ddeg medr o'r lan. Mae'r dŵr, wrth reswm yn llifo'n gyflym, ac ar draws ei gwaelod mae cyfres o wiail wedi eu gosod. Mae'n amhosib i'r eogiaid fynd drwy'r rhain! Yr unig agoriad yn y mur o goed yw un 35 centimetr o led yn arwain i focs -neu gist, dwy fedr o hyd wrth un fedr a hanner o led. Os bydd eog yn mynd i'r gist yma, 'd oes dim posibil' iddo fedru mynd yn ei ôl gan fod y wialennod haearn yn ei rwystro. Ni all fynd yn ei flaen chwaith i fyny'r afon gan fod yna fur o bren ar ei ffordd. Felly, mae'r eog yn garcharor yn y gist ac yn gorfod aros i bysgotwr ei godi oddi yno.

BRWYNAID AFON CONWY



Mae Stan Wicklen wedi ysgrifennu o'r blaen am y chwedl sut y daeth y brwyniaid i Afon Conwy a'r cysylltiad â Santes Ffraid. Rydw i'n canolbwyntio ar y nod yn 'Y Rhedegydd' 14 Ebrill, 1906. "Yn y misoedd hyn, Mawrth ac Ebrill, oddeutu Y Pasg, bob tymor, daw math o bysgod i Afon Conwy o'r enw brwyniaid. Y mae tri math ohonynt, sef brwyniaid penddu, penlas a phenllwyd. Eu harferiad yw dod i fyny'r afon o'r môr yn heidiau o filoedd. I gladdu yn unig y gwnant hynny, yn yr un man ar yr afon bob tymor, sef rhwng cei Trefriw a Phont Llanrwst ac yna dychwelant i'r môr yn ôl ar unwaith, hyd fisoedd Mehefin a Gorffennaf, pryd y deuant yn ôl i'r afon drachefn, er cyrchu y mäg (cywion) i lawr i'r môr, a dyma'r olwg ddiwethaf arnynt y flwyddyn honno.

"Pysgod ydynt o liw gwyrdd, bras eu croen, ac eithriad yw cael un dros hanner pwys o faint. Nid oes hanes i un gael ei ddal â genwair erioed am nad oes tuedd ynddynt at un math o abwyd na phluen. Maent yn bysgod marchnadol a drudfawr iawn fel y dylid bod yn ofalus iawn ohonynt rhag gwneud dim i'w rhwystro i gynyddu. Pysgod tendar iawn ydynt. Cas beth ganddynt yw dŵr eira, a thra bu hwnnw ar y brynau o gwmpas, nid oes beryg iddynt ddod yn uwch i fyny'r afon na Thal y Cafn, ac os digwydd hynny bydd ei drwyn a'i lygaid cyn goched â gwaed. Cânt yr enw brwyniaid oddi wrth yr arogl sydd arnynt, sef brwyn, ac nid oes hanes amdanynt ond mewn dwy afon heblaw y Conwy."

Diolch i Myrddin ap Dafydd am ei ganiataid i 'bori' yn 'Dal Pysgod' gan Emrys Evans a gyhoeddiwyd gan Gwasg Carreg Gwalch yn 1959. Fefyd, dyfynwyd o 'Crefftwyr Gwlad' gan Geraint Jenkins. Gareth Prithard

O'r Papurau Bro

Y Pentan (Llandudno a Dyffryn Conwy, diolch i'r golygydd Gareth Prithard)

Pigion o'r Gambia gan Alun Williams



Tynnodd Alun y lluniau hyn ar ymweliad ym Mawrth 2016.

O'r chwith i'r dde ac o'r brig i lawr:
rholydd Abyssinia, pysgotwr, Cnocell fannog werdd ifanc, dwr i'r cnydau, gwenynysorion bochlas, gwarchod y gwartheg, pysgotwr rhesog, casglu sudd palmwydd, casglu wystrys, llinos dan bicoch